Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Clwb y Tu Allan i Oriau Ysgol Craig y Don**

**The Portacabin
Ysgol Craig y Don
Heol Clarence
Craig y Don
LL30 1TR**



## Dyddiad Cyhoeddi

**Dydd Mercher, 19 Medi 2018**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Clwb y Tu Allan i Oriau Ysgol Craig y Don wedi'i gofrestru i ddarparu gofal ar gyfer hyd at 26 o blant ac mae'n gweithredu o adeilad penodedig ar dir Ysgol Craig y Don, Llandudno. Mae'r plant sy'n mynychu rhwng 4 a 12 oed a gallant dderbyn gofal rhwng 15:00 a 15:30 ar gyfer plant yr adran fabanod a rhwng 15:30 a 18:00 ar gyfer cyfuniad o blant yr adran fabanod a'r adran iau. Mae gofal ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod tymor yr ysgol a rhwng 08:00 a 17:45 o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod gwyliau'r ysgol. Mae'r gwasanaeth yn eiddo i Chasebell Cyf ac mae Donna Martin-Young (a adwaenir hefyd fel Louise) a Karen Sherrington wedi'u henwebu i weithredu fel unigolion cyfrifol ar ran y cwmni. Nhw hefyd yw'r personau â chyfrifoldeb i weithredu'r gwasanaeth o ddydd i ddydd. Saesneg yw prif iaith y gwasanaeth, nid yw'r gwasanaeth yn gweithredu'r 'Cynnig Rhagweithiol' mewn perthynas â'r Gymraeg, sy'n golygu na all rhieni a phlant fanteisio ar y gwasanaeth a'i bolisïau drwy gyfrwng y Gymraeg heb orfod gofyn amdano.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

**1. Asesiad cyffredinol**

Mae'r plant yn cael rhyddid a dewis o fewn amgylchedd cefnogol. Cânt eu cadw'n ddiogel gan staff sy'n meddu ar gymwysterau a phrofiad addas ac sy'n cynllunio gweithgareddau sy'n annog y plant i ymgysylltu ac sy'n ennyn eu diddordeb. Mae'r plant a'r rhieni yn profi gwasanaeth sydd wedi'i drefnu'n dda ac sy'n diwallu eu hanghenion. Mae angen gwella'r amgylchedd cyffredinol.

**2. Gwelliannau**

Ni fu unrhyw newidiadau sylweddol i'r gwasanaeth, y sefydliad na'r ffordd y caiff ei weithredu ers yr arolygiad diwethaf. Ni roddwyd yr argymhellion a wnaed yn yr arolygiad diwethaf ar waith.

**3. Gofynion ac argymhellion**

Gwnaethom argymhellion mewn perthynas â'r datganiad o ddiben, cynllunio ar gyfer gwelliant a gwaith cynnal a chadw a décor ar y safle.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Gwrandewir ar y plant a chaiff eu dewisiadau eu parchu.  Maent yn fodlon ac yn hapus yn y gwasanaeth ac yn gallu ffurfio ymlyniadau emosiynol a meithrin cyfeillgarwch cadarnhaol. Maent yn cymryd eu tro ac yn deall y rheolau ar gyfer ymddygiad derbyniol yn y gwasanaeth. Mae'r amrywiaeth o gemau a gweithgareddau sydd ar gael iddynt yn eu cyffroi ac o ddiddordeb iddynt.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Gall y plant gyfathrebu a mynegi eu safbwyntiau yn agored.

Clywsom blant yn mynd at y staff ac yn gofyn am deganau a chyfarpar penodol, a rhoddwyd yr eitemau hynny iddynt ar unwaith. Cawsant ddewis pa DVD i'w wylio o blith amrywiaeth a oedd ar gael iddynt a chawsant ddewis p'un a oeddent am chwarae dan do neu yn yr awyr agored. Roedd y plant yn teimlo bod y staff yn gwrando arnynt ac yn gwybod bod eu cyfraniad at syniadau a themâu yn cael ei ystyried. Dywedodd y plant wrthym y gallent helpu eu hunain i'r teganau roeddent am eu cael a gwnaethant ddangos i ni lle roedd y creonau pensil yn cael eu cadw.

Mae'r plant yn hyderus y gwrandewir ar eu safbwyntiau a'u syniadau ac yr ymatebir iddynt.

### 1.2 I ba raddau y mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae hoffter amlwg rhwng y plant a'r staff, sy'n eu hadnabod yn dda a gallant feithrin cyfeillgarwch â phlant eraill.

Roedd y plant yn fodlon mynd at aelodau o staff ac yn gofyn i'r staff chwarae â nhw. Gofynnodd un plentyn i aelod o staff chwarae ar y consol gemau gydag ef, ac roedd yr aelod o staff yn ddigon bodlon gwneud hynny, gan eistedd yn gwmni iddo. Clywyd y plant a'r staff yn sgwrsio â'i gilydd mewn ffordd hamddenol a chyfarwydd ac roedd ymlyniadau emosiynol cadarnhaol yn amlwg. Roedd y plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac roedd ganddynt ymdeimlad o berthyn mewn perthynas â'r gwasanaeth, gydag un o'r plant iau, yn ddigymell, yn ein tywys o amgylch y cyfleusterau chwarae dan do a'r ardal awyr agored. Roedd y plant yn cyd-chwarae'n dda, gan gydweithredu a chymryd troeon. Clywsom aelod o staff yn gofyn i un plentyn a allai plentyn arall ymuno yn y gêm, ac roedd yr ateb 'of course he can!' wrth fodd y plentyn ac yn bleser i ni ei glywed. Dychwelodd un plentyn a gasglwyd gan ei rieni i'r gwasanaeth er mwyn gweiddi 'goodbye' i'w holl ffrindiau ar ôl cael prynhawn a oedd yn amlwg wrth ei fodd.

Caiff y plant eu gwerthfawrogi, maent yn gysurus ac yn teimlo'n gartrefol yn eu hamgylchedd.

### 1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn rheoli eu hymddygiad yn dda ac yn cydweithredu â'r staff pan fo angen iddynt wneud hynny.

Roedd pob un o'r plant yn ymddangos yn gartrefol yn ystod ein dau ymweliad arolygu ac roeddent yn gyfarwydd â threfn y gwasanaeth. Roedd y plant yn ymddwyn yn dda ac nid oedd llawer o alw i'r staff 'reoli' eu hymddygiad. Roeddent yn dangos ymwybyddiaeth o emosiynau unigolion eraill, gan gyd-chwarae, cymryd troeon a phennu eu rheolau eu hunain er mwyn helpu'r gwasanaeth i redeg yn ddidrafferth, er enghraifft, yn ystod gêm o hoci bwrdd, penderfynodd y plant y dylai'r enillydd aros wrth y bwrdd a chwarae'r gêm nesaf. Roeddent yn gwrando'n astud ar staff, gan ymateb yn gwrtais ac yn briodol iddynt pan oeddent yn gofyn cwestiynau iddynt.

Mae'r plant yn gwrtais, yn gofalu'n briodol am y cyfarpar a'r adnoddau ac yn rhyngweithio'n frwdfrydig â'u cyfoedion a'r rheini sy'n gofalu amdanynt.

### 1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau chwarae a dysgu?

Mae'r plant yn ymgysylltu â'r gweithgareddau sy'n seiliedig ar chwarae a gynigir iddynt ac yn mwynhau'r rhyddid i chwarae dan do neu yn yr awyr agored.

Roedd y plant yn mwynhau'r amrywiaeth o weithgareddau sydd ar gael iddynt. Gwelsom fod rhai o'r plant yn mwynhau chwarae yn yr awyr agored ond bod yn well gan eraill aros dan do allan o'r tywydd poeth yn ymlacio, yn gorwedd ac yn gwylio DVD. Roeddent yn chwilfrydig ac yn dangos diddordeb yn y gweithgaredd gwneud 'sleim' a lwyddodd i ddal eu sylw am gyfnod sylweddol o amser wrth iddynt ymestyn a thrin y glud er mwyn gwneud eu sleim. Sgwrsiodd y plant am eu hoff liwiau, gan wneud cymariaethau o'r hyn roedd y sleim yn eu hatgoffa ohono wrth chwarae. Yn yr awyr agored, roedd y plant yn manteisio i'r eithaf ar yr ardal chwarae fawr a'r cae, gan redeg, chwarae pêl-droed ac ymlacio â'u ffrindiau.

Mae'r plant yn mwynhau'r profiad o gyfnodau estynedig o gyfleoedd chwarae wedi'u hysgogi gan y plant lle na thorrir ar eu traws, gan wybod y gallant ryngweithio â'r oedolion os byddant am wneud hynny.

### 1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Mae'r plant yn hyderus ac yn annibynnol.

Rhoddwyd cyfleoedd i'r plant ddatblygu'n emosiynol, yn gymdeithasol ac yn gorfforol. Gwelsom blant a oedd yn hyderus i sgwrsio â ni am y gwasanaeth ac i ddweud wrthym beth roeddent yn ei fwynhau fwyaf. Roeddent yn helpu eu hunain i gwpanau o

ddŵr a oedd bob amser ar gael iddynt ac yn gallu cael gafael ar deganau o'u dewis yn annibynnol. Gwelsom blant yn cael eu hannog i roi eli haul arnynt eu hunain cyn chwarae yn yr awyr agored ac roedd yn bleser gweld y plant hŷn yn dangos gofal ac agwedd feithringar tuag at y plant iau drwy eu helpu i roi eli haul arnynt.

Mae gofalwyr cyson a threfn gyfarwydd o fudd i'r plant ac yn eu cymell i ddewis o'u gwirfodd a chyfeirio eu cyfleoedd chwarae yn annibynnol.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae'r staff yn hyrwyddo llesiant y plant drwy ddilyn polisïau a gweithdrefnau yn briodol. Maent wedi ymgymryd â hyfforddiant diweddar mewn pynciau perthnasol er mwyn eu galluogi i fod yn wybodus am hylendid bwyd a rhoi cymorth cyntaf. Maent yn pennu ffiniau realistig ac yn annog y plant i gymryd cyfrifoldeb am eu hymddygiad eu hunain mewn ffordd sy'n briodol ar gyfer oedran y plentyn. Maent yn meddu ar ddealltwriaeth o anghenion ychwanegol y plant a sut y gellir eu diwallu.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r staff yn meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth o'r ffordd i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach.

Nodwyd gennym fod y staff wedi cael hyfforddiant diweddar ym maes diogelu a'u bod yn hyderus wrth ddweud wrthym pa arwyddion y byddent yn cadw llygad arnynt a'r gweithdrefnau y byddent yn eu dilyn pe byddai ganddynt unrhyw bryderon am blentyn. Roeddent yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw drwy annog y plant i yfed dŵr yn rheolaidd, gan gynnig dewisiadau iach o ran byrbrydau a chan annog y plant i chwarae yn yr awyr agored. Roeddent yn cynllunio gweithgareddau a oedd yn helpu'r plant i ddysgu am ddewisiadau iach ac i roi cynnig ar fwydydd newydd. Er enghraifft, roedd y plant wedi blasu amrywiol ffrwythau a llysiau ac wedi tynnu llun emosiwn ar wyneb papur ynghyd â'u henw er mwyn nodi p'un a oeddent wedi hoffi'r ffrwyth ai peidio. Arddangoswyd yr wyneb hwn ar wal y gwasanaeth.

Mae gweithdrefnau priodol ar waith gan y staff i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw ac i sicrhau bod y plant yn cael digon o ymarfer corff.

### 2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae'r staff yn gweithredu mewn ffordd gyson mewn perthynas ag ymddygiad ac yn hyrwyddo cydberthnasau cadarnhaol.

Roedd y staff yn sicrhau bod y plant yn gwybod eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac y gallant bob amser fynegi eu dewisiadau. Er enghraifft, clywsom blentyn yn datgan nad oedd am gael y byrbryd a oedd yn cael ei gynnig; cynigiodd y staff ddewis amgen i'r plentyn, sef tost, ac roedd y plentyn yn fwy na pharod i'w dderbyn. Roedd y staff yn siarad â'r plant mewn ffordd barchus gan gydnabod pan oedd y plant wedi bod yn gwrtais a diolch iddynt am wneud hynny. Roeddent yn annog y plant i gymryd perchenogaeth dros eu cyfnod yn y gwasanaeth ac yn mynd ati'n fedrus i sicrhau bod y plant yn gwybod pa ddewisiadau amgen a oedd ar gael iddynt, gan sicrhau cydbwysedd da rhwng chwarae yn yr awyr agored a chwarae ar y consolau gemau. Roedd y staff yn grymuso'r plant i gymryd cyfrifoldeb dros eu hymddygiad eu hunain ac o ganlyniad, roedd y plant yn cydweithredu'n dda â'r staff ac yn cyd-chwarae'n dda.

Mae'r staff yn fodelau rôl da, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o egwyddorion gweithwyr chwarae ac maent yn eu defnyddio'n effeithiol i uniaethu â'r plant ac i'w helpu i ddeall y rheolau ymddygiad derbyniol.

### 2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r staff yn cefnogi ac yn hwyluso chwarae a datblygiad y plant.

Roedd y staff yn creu amgylchedd magwrus a gofalgar ac yn rhoi gofal ymatebol i'r plant. Roeddent yn adnabod y plant yn dda ac yn cefnogi eu dewis o weithgareddau. Gwelsom fod y plant wedi creu poster 'ar goll' ar gyfer un o'r teganau a oedd wedi mynd ar goll. Roedd y tegan wedi cael ei ddarganfod ers hynny, ond roedd y plant yn falch eu bod wedi gallu dangos yr ymdrech a wnaed i ddod o hyd i'r tegan coll a'r poster roedd y staff wedi'u helpu i'w ddylunio. Roedd gweithgareddau yn cael eu cynllunio mewn ffordd hyblyg a nodwyd gennym bod y gweithgareddau roedd y plant yn gofyn amdanynt yn cael eu darparu gan y staff. Er enghraifft, gofynnodd y plant am gael gwneud sleim, a threfnwyd y gweithgaredd hwn. Roedd y staff yn chwarae ochr yn ochr â'r plant, gan gynnig digon o anogaeth a chanmoliaeth. Roedd y sgwrs yn llifo'n naturiol gyda'r staff a'r plant yn sôn am eu hoff bethau, gan helpu'r plant i ddatblygu'n ieithyddol ac yn emosiynol.

Roedd strategaethau ar waith gan y staff ac roeddent yn deall sut i helpu plant ag anghenion ychwanegol. Roeddent yn gweithio ochr yn ochr â'r rhieni i sicrhau'r canlyniad gorau ar gyfer y plentyn. Roeddent yn ymwybodol o ddewisiadau'r plant ac yn cydnabod sut y gellid defnyddio ymlyniadau cadarnhaol ag aelodau penodol o staff yn effeithiol er mwyn diwallu anghenion emosiynol y plant.

Mae'r staff yn cynllunio gweithgareddau sy'n hyblyg er mwyn ystyried safbwyntiau'r plant, maent yn hwyluso cyfleoedd chwarae ac yn modelu enghreifftiau o chwarae cadarnhaol i'r plant.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd dan do yn lân ac yn ddiogel ac yn manteisio i'r eithaf ar yr ardaloedd chwarae sydd ar gael iddynt yn yr awyr agored. Maent yn darparu adnoddau a chyfarpar sy'n briodol ar gyfer oedran a cham datblygiad y plant ac sy'n ategu diddordebau presennol y plant a thueddiadau. Mae angen ailaddurno'r adeilad ac ymgymryd â rhywfaint o waith trwsio mewn rhai mannau er mwyn sicrhau ei fod yn lleoliad ysgogol a chroesawgar i'r plant chwarae a threulio eu hamser.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?

Mae'r arweinwyr yn darparu amgylchedd glân a diogel i'r plant.

Roedd yr amgylchedd yn lân ac yn ddiogel. Roedd aelod penodol o staff wedi'i neilltuo i gwrdd â'r plant ac unrhyw ymwelwyr yn y brif fynedfa, gan sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Roedd asesiadau risg ar waith, yn nodi unrhyw beryglon diangen ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Roedd yr arweinwyr wedi gwneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau bod yr amgylchedd yn parhau'n glaear yn ystod y tywydd poeth, gan agor y ffenestri a defnyddio gwyntyll. Roedd dyletswyddau glanhau o ddydd i ddydd yn cael eu neilltuo i aelod penodol o'r staff, ac roedd y teganau yn cael eu glanhau ar ddechrau pob gwyliau ysgol. Roedd yr amgylchedd awyr agored yn cynnig cyfleoedd i'r plant gael ymarfer corff ac yn cynnig y cyfle iddynt gymryd risgiau call a oedd yn briodol ar gyfer eu hoedran a'u cam datblygiad. Roedd yr arweinwyr wedi sicrhau bod y staff wedi cael hyfforddiant diweddar mewn diogelwch tân, iechyd a diogelwch ac asesu risg er mwyn eu galluogi i roi polisïau'r gwasanaeth ar waith yn effeithiol.

Mae gan yr arweinwyr bolisïau a gweithdrefnau priodol ar waith sy'n sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran sicrhau diogelwch a lles y plant.

### 3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?

Mae'r arweinwyr yn gwneud eu gorau i sicrhau bod yr amgylchedd yn groesawgar, ond mae angen addurno'r adeilad cyfan yn well ac ymgymryd â gwaith cynnal a chadw mewn mannau.

Roedd y gwasanaeth wedi'i drefnu er mwyn cynnig dewis i'r plant, ac roedd ardaloedd chwarae wedi'u diffinio'n glir yn amlwg, er enghraifft, ardal ar gyfer y consolau gemau, ardal ar gyfer gwylio DVDs ac ardal ar gyfer crefftau a gemau pen bwrdd. Roedd y gofod dan do lle gallai'r plant symud o amgylch yn gyfyngedig, ond roedd yr ardal awyr agored helaeth a oedd ar gael yn ystod tywydd sych yn gwneud iawn am hyn. Nodwyd gennym nad oedd yr amgylchedd yn cynnig gofod chwarae ysgogol a chyfoethog i'r plant. Roedd décor cyffredinol yr amgylchedd yn llwm ac roedd angen rhoi sylw i hynny. Roedd arddangosiadau lliwgar yn gwella'r amgylchedd rywfaint, ond

roedd tystiolaeth o arddangosiadau blaenorol nad oeddent wedi cael eu gwaredu'n llwyr yn golygu bod yr amgylchedd yn ymddangos yn flêr. Rydym wedi argymell i'r arweinwyr y dylid rhoi blaenoriaeth i hyn fel rhan o ddatblygiadau yn y dyfodol.

Nid oes gan yr arweinwyr gynllun cynnal a chadw rheolaidd ac amserol ar waith ar gyfer ailaddurno a gwaith cynnal a chadw, a fyddai'n sicrhau bod yr amgylchedd yn groesawgar, yn ysgogol ac yn fwy ysbrydoledig i'r plant.

### 3.3 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a'r cyfarpar o ansawdd?

Mae'r arweinwyr yn darparu dodrefn a chyfarpar i'r plant sy'n addas ar gyfer eu hanghenion.

Roedd byrddau a chadeiriau a oedd yn briodol ar gyfer oedran y plant ar gael iddynt ac roedd toiledau a chyfleusterau golchi dwylo ar gael i'r plant yn y caban. Roedd teganau ac adnoddau yn cael eu storio'n ddiogel ac ar gael yn hawdd i'r plant gael gafael arnynt. Roedd digon ohonynt, roeddent o ansawdd da ac, fel y gwelwyd yn yr asesiadau risg, roeddent yn cael eu harchwilio'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn cael eu taflu os nad oeddent bellach yn addas i'w defnyddio gan y plant.

Mae'r arweinwyr yn darparu adnoddau sylfaenol i'r plant er mwyn diwallu eu hanghenion uniongyrchol.

## 4. Arwain a Rheoli

### Crynodeb

Ar y cyfan, mae'r arweinwyr yn drefnus ac yn sicrhau bod y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn cael eu cyrraedd. Mae gweithdrefnau ar waith i werthuso ansawdd y gwasanaeth a ddarperir ganddynt ond nid ydynt bob amser yn gweithredu mewn perthynas ag adborth. Mae prosesau recriwtio effeithiol ar waith ganddynt ac maent yn sicrhau bod cyfleoedd rheolaidd ar gael i'r staff fynychu hyfforddiant. Mae angen datblygu trefniadau goruchwylio ac arfarnu er mwyn sicrhau bod yr arweinwyr yn herio staff ac yn pennu targedau iddynt fod yn fyfyriol a chyflawni eu potensial.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae gan yr arweinwyr ddiben ar gyfer eu gwasanaeth ac maent yn cyfleu'r diben hwn yn effeithiol.

Dangosodd yr arweinwyr ddealltwriaeth glir o'r hyn a oedd yn ofynnol ganddynt ac maent yn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r newidiadau rheoliadol diweddaraf drwy fynychu sesiynau briffio. Ceir datganiad o ddiben ar gyfer y gwasanaeth sy'n darparu disgrifiad cyffredinol o'r gwasanaeth, ond nodwyd gennym nad oedd y datganiad o ddiben yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan Safonau Gofynnol Cenedlaethol 1.2. Tynnwyd sylw'r arweinwyr at hyn ac fe'u diwygiwyd yn briodol.

Mae'r arweinwyr yn drefnus iawn ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o'u staff. Maent yn deall eu cyfrifoldebau ac yn gweithio'n unol â'r rheoliadau wrth ddarparu eu gwasanaeth.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae'r arweinwyr yn casglu adborth gan y rhieni ac yn ei ddefnyddio i gynllunio ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol.

Mae gan yr arweinwyr ffyrdd anffurfiol o gael gwybod barn y rhieni am y gwasanaeth a gynigir ganddynt ac o asesu'r farn honno. Maent yn annog y rhieni i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i fynegi eu sylwadau am y gwasanaeth ac yn anelu at siarad â'r rhieni wyneb yn wyneb bob nos. Maent yn gofyn i'r plant am eu safbwyntiau yn ystod y sesiynau ac yn prynu adnoddau yn seiliedig ar y dymuniadau a fynegir ganddynt. Roedd yr arweinwyr wedi cwblhau'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth (SASS) ar gais AGC. Fodd bynnag, nid oedd y datganiad yn asesu ansawdd y gofal a ddarperir gan y gwasanaeth yn llawn nac yn nodi blaenoriaethau manwl ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol. Argymhellir y dylid cynnal asesiad mwy ffurfiol o'r gwasanaeth bob blwyddyn er mwyn rhoi diwylliant o welliant parhaus ar waith. Dylai'r arweinwyr ystyried gwahanol ffyrdd o gael adborth gan y rhieni a'r plant, er enghraifft, holiaduron neu arolygon ar-lein.

Mae'r arweinwyr wedi cynllunio rhai gwelliannau, ond nid ydynt bob amser yn gweithredu'n unol â'r cyngor a roddir iddynt. Mae hyn gan ein bod wedi nodi bod yr

adroddiad arolygu diwethaf yn cynnwys argymhelliad o ran gwneud gwelliannau parhaus i'r décor a gwaith adnewyddu i'r gwasanaeth, ond roedd hyn yn wendid o hyd yn ystod yr arolygiad hwn. Argymhellir rhaglen dreigl ar gyfer ailaddurno ac ymgymryd â gwaith cynnal a chadw ar y safle.

Mae angen i'r arweinwyr ddatblygu amrywiol brosesau ar gyfer adolygu, asesu a llywio gwelliannau o ran ansawdd y gwasanaeth a ddarperir ganddynt.

### 4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau y caiff aelodau o staff eu cyflogi a'u rheoli'n ddigonol i ddiwallu anghenion y plant.

Mae'r arweinwyr yn adnabod eu staff yn dda, yn rhan weithgar o'r tîm staffio ac yn cefnogi'r staff gyda'u datblygiad proffesiynol parhaus. Roeddent wedi sicrhau bod y staff wedi ymgymryd â'r hyfforddiant gorfodol priodol a'u bod hefyd yn cael cynnig cyfleoedd i fynychu hyfforddiant arall sy'n berthnasol i'w rôl, er enghraifft, Rheoli ymddygiad mewn ffordd gadarnhaol ac Ymwybyddiaeth o alergeddau bwyd. Roedd ffeiliau'r staff yn dangos bod gan y rhan fwyaf o'r staff gymhwyster gofal plant a bod y rheini nad oedd ganddynt gymhwyster o'r fath yn gweithio tuag ato. Roedd y staff wedi'u recriwtio'n ddiogel, gan gynnal gwiriadau i gadarnhau eu haddasrwydd cyn iddynt ddechrau gweithio yn y gwasanaeth. Roedd y cofrestri yn dangos bod digon o staff yn cael eu cyflogi i gyfateb i nifer y plant sy'n mynychu a bod y plant yn cael gofal gan ofalwyr cyson. Roedd yr arweinwyr yn gofyn i'r rhieni archebu eu lle flwyddyn ymlaen llaw, gan eu galluogi i gynllunio a chyflogi staff yn unol â hynny. Roedd gan yr arweinwyr gynlluniau wrth gefn digonol ar waith er mwyn ymdrin ag absenoldebau staff ac roedd cronfa o staff ar gael i'w defnyddio gan y ddau wasanaeth a weithredir ganddynt. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau drwy roi disgrifiad swydd a chontract cyflogaeth ysgrifenedig iddynt. Cafwyd gennym nad oedd y trefniadau ar gyfer goruchwylio ac arfarnu staff yn gyson ac ni welsom unrhyw dystiolaeth fod unrhyw aelod o staff wedi cael arfarniad blynyddol ers 2016. Er mai tîm bach o staff sydd yn y gwasanaeth, mae cyfleoedd ar gyfer trafodaethau unigol rhwng arweinwyr ac aelodau o staff er mwyn trafod perfformiad, hyfforddiant a diogelu yn bwysig ac mae angen i'r arweinwyr adolygu'r broses hon er mwyn sicrhau bod staff yn cael arfarniadau priodol a sesiynau goruchwylio rheolaidd a gofnodir. Mynegodd y staff eu bod yn mwynhau eu gwaith a'r tîm roeddent yn rhan ohono, roeddent yn hyderus y gallent gysylltu â'r arweinwyr a siarad â nhw pe byddai ganddynt unrhyw broblemau neu bryderon.

Mae'r arweinwyr yn defnyddio tîm bach o staff y maent yn eu rheoli'n effeithiol er mwyn cydweithio i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i'r plant.

## 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae gan yr arweinwyr gydberthnasau cadarnhaol â'r rhieni ac maent yn gwrando ar eu safbwyntiau.

Roedd yr arweinwyr a'r staff yn siarad â'r rhieni wrth iddynt gasglu eu plant bob nos ac yn rhoi adborth llafar i'r rhieni am eu plentyn. Roedd gan yr arweinwyr gydberthnasau effeithiol â rhieni'r plant ag anghenion ychwanegol; gan eu helpu â gwybodaeth mewn perthynas â'u plentyn cyn unrhyw adolygiadau arfaethedig.

Gwnaethom siarad â rhiant a oedd yn casglu ei blentyn a ddywedodd ei fod yn fodlon â'r gwasanaeth a gynigir iddynt a bod ei blentyn yn mwynhau. Roedd yr arweinwyr ar gael bob dydd i ateb unrhyw gwestiynau gan rieni ac roedd cydberthynas gadarnhaol yn amlwg.

Mae'r arweinwyr yn gwerthfawrogi'r cyfraniad y mae'r rhieni a phartneriaethau eraill yn ei gynnig. Maent yn frwdfrydig ynghylch darparu'r gwasanaeth gorau posibl er budd y plant ac er boddhad i'r rhieni.

# 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

## 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Gwnaethom hysbysu'r unigolion cyfrifol nad oeddent yn cydymffurfio â'r rheoliadau canlynol;

**Rheoliad 29** – mewn perthynas â gwrthlofnodi'r Dystysgrif Datgelu a Gwahardd (DBS) ar gyfer y person â chyfrifoldeb gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Nid yw hyn yn ofyniad mwyach. Gwelsom dystiolaeth o'r pedwar ffeil staff a archwiliwyd gennym fod gan y pedwar aelod o staff dystysgrif DBS gyfredol yn cadarnhau eu bod yn addas i weithio gyda phlant.

**Rheoliad 15** – mewn perthynas â'r datganiad o ddiben. Nodwyd gennym fod y datganiad o ddiben wedi'i ddiwygio ers hynny a'i fod bellach yn cydymffurfio.

## 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaethom argymell y dylai'r darparwr wneud y canlynol:

- datblygu cynllun gweithredu ar gyfer rhaglen dreigl o waith cynnal a chadw ac ailaddurno er mwyn sicrhau nad yw'r amgylchedd yn dirywio ymhellach ac er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd yn parhau'n groesawgar ac yn ysgogol i'r plant.

- sicrhau bod y staff yn cael sesiynau goruchwyliaeth rheolaidd ac arfarniad blynyddol ac y cedwir cofnod ysgrifenedig ar gyfer y ddau.

- ystyried gwahanol ffyrdd o gael gwybod barn y rhieni, y plant a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n ymweld am y gwasanaeth a ddarperir a defnyddio'r wybodaeth hon fel ffordd o ddatblygu'r adolygiad Ansawdd Gofal ymhellach.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad dirybudd llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau. Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ar 4 Gorffennaf 2018 rhwng 15:15 a 17:00. Ymwelodd yr un arolygydd â'r gwasanaeth eto ar 12 Gorffennaf 2018 rhwng 14:45 a 16:45.

Gwnaethom:

- archwilio sampl o ddogfennaeth a pholisïau;
- arsylwi ar arferion a chwblhau arsylwadau gan ddefnyddio adnodd SOFI 2 er mwyn nodi tystiolaeth o ymgysylltiad y plant a'r gofal a ddarperir gan y staff;
- siarad â'r plant, y rhieni pan oeddent yn casglu eu plant a'r staff a oedd yn bresennol yn ystod yr arolygiad;
- ystyried diogelwch ac addasrwydd yr amgylchedd ar gyfer y plant.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal y Tu Allan i'r Ysgol** |
| **Unigolyn Cyfrifol** | **Donna Martin-Young**<br>**Karen Sherrington** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **26** |
| **Ystod oedran y plant** | **4-12 oed** |
| **Oriau agor** | **15:00 – 18:00 yn ystod y tymor**<br>**08:00 – 17:45 yn ystod gwyliau'r ysgol** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Y ddwy** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **31 Gorffennaf 2015** |
| **Dyddiadau'r ymweliadau arolygu hyn** | **4 Gorffennaf 2018 a 12 Gorffennaf 2018** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Ddim yn gymwys ar gyfer y gwasanaeth hwn** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Ddim yn gymwys ar gyfer y gwasanaeth hwn** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Argymhellwn y dylai'r darparwr gwasanaeth ystyried canllawiau strategol olynol 'Mwy na Geiriau' Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg mewn gofal cymdeithasol.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |